



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Trefniadau'r dyfodol ar gyfer Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-2020

Dyddiad cyhoeddi: 20 Ebrill 2015

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 10 Gorffennaf 2015

Trosolwg

Diben yr ymgynghoriad hwn yw casglu barn ar fframwaith ariannu cydraddoldeb a chynhwysiant Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Rydym yn awyddus iawn i ymgysylltu â'r Trydydd Sector a sefydliadau sy'n cynrychioli'r rheini â nodweddion gwarchodedig, yn ogystal ag unigolion â diddordeb i sicrhau ein bod yn clywed barn pobl â nodweddion gwarchodedig. Rydym yn awyddus i ddeall sut y gall y fframwaith ariannu gefnogi sefydliadau orau i ddileu'r rhwystrau a wynebir gan bobl.

Byddwn yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu ac yn gwahodd ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad er mwyn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl ledled Cymru.

Sut i ymateb

A fydddech cystal ag ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi ffurflen ar-lein.

I drefnu lle ar un o'r digwyddiadau ymgysylltu, defnyddiwch ein ffurflen archebu. Bydd y digwyddiadau ymgysylltu hefyd yn cynnwys ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Rhaglen Ddiweddarau ar gyfer 2016-2020.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Cyfeiriad gwe yr ymgynghoriad:
<http://gov.wales/consultations/people-and-communities/equality-inclusion-programme-consultation/?lang=cy>

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:
Arian Cydraddoldeb a Chynhwysiant
Is-adran Dyfodol Tecach
Llywodraeth Cymru
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

e-bost: FairerFuturesMailbox@wales.gsi.gov.uk
(Nodwch 'Cyllid Cydraddoldeb a Chynhwysiant' ar eich ymholiad)

Rhif ffôn: 0300 062 8133

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Rhagair

Mae Cymru yn wlad sy'n seiliedig ar egwyddorion tegwch a chydaddoldeb. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i barhau â'r dull cynhwysol hwn o weithredu ac i ddatblygu cyfle cyfartal ymhellach yng Nghymru.

Mae gennym Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar waith sy'n cynnwys amcanion cydraddoldeb sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'r amcanion hyn, a gyhoeddwyd ar ôl ymgysylltu'n helaeth â'r cyhoedd, yn amlygu'r gwahaniaethau ymarferol y mae angen i ni eu gwneud i fywydau pobl yng Nghymru.

Mae'r Trydydd Sector wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ein dyletswyddau statudol wrth ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Yn hyn o beth, rydym yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi gwaith y Trydydd Sector i'n cynorthwyo ni i weithredu'r agenda hon.

Mae Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2014-2017 yn ariannu 16 o sefydliadau'r Trydydd Sector, gan ddarparu ledled Cymru, cyrraedd amrywiaeth o bobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol a helpu i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb. Mae angen i ni yn awr edrych ar ddyfodol yr arian hwn, ar ôl mis Mawrth 2017, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i weithredu ar yr agenda hon.

Mae'n rhaid i'r arian sicrhau canlyniadau cadarn a chael effaith gadarnhaol ar y rheini y mae'n canolbwyntio arnynt. Gyda'r pwysau ar wariant cyhoeddus, mae'n rhaid i ni hefyd sicrhau'r gwerth gorau am arian i'r cyhoedd o fewn fframwaith llywodraethu cadarn.

Rydym yn awyddus i gasglu eich barn yn awr i sicrhau bod ein harian cydraddoldeb a chynhwysiant ar gyfer 2017-2020 yn gallu cyflawni i bawb.

Lesley Griffiths

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Beth yw cynnwys yr ymgynghoriad?

Daw'r Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant i ben ar 31 Mawrth 2017. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn yr holl randdeiliaid ar sut y dylid ariannu'r gweithgareddau cydraddoldeb a chynhwysiant yn y Trydydd Sector ar ôl y dyddiad hwn. Nod yr ymgynghoriad yw sicrhau bod arian 2017-2020 yn strategol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau a'i fod hefyd yn diwallu anghenion pobl sydd â nodweddion gwarchodedig yng Nghymru.

Dyletswyddau Cydraddoldeb

Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus wedi'i nodi yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a nodir dyletswyddau eraill yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2011.

Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus sy'n rhan o adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, i ystyried yr angen i wneud y canlynol:

- (a) dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf neu oddi tani;
- (b) datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu;
- (c) meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu.

Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswyddau ar y sector cyhoeddus datganoledig, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, sy'n cwmpasu asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, cyhoeddi ac adolygu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol, ymgysylltiad, gwahaniaethau cyflog, caffael, trefniadau adrodd a gwybodaeth am gydraddoldeb a chyflogaeth.

Mae amcanion cydraddoldeb Llywodraeth Cymru yn rhan o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac maent yn ategu ein gwaith, ac yn sicrhau bod canlyniadau gwell yn cael eu cyflawni i'r bobl mewn modd cydgysylltiedig. Cânt eu hadlewyrchu yn y Rhaglen Lywodraethu ac maent yn plethu'n agos â'n Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Caiff cynnydd yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb ei gofnodi a'i adrodd yn ein hadroddiadau blynyddol ar gydraddoldeb.

Dilynwch y ddolen ganlynol i gael rhagor o fanylion:

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/?skip=1&lang=cy>

Mae ymgynghoriad sy'n casglu barn ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol ar gyfer 2012-2016 a'r gwaith o ddatblygu Amcanion Cydraddoldeb y Cynllun nesaf ar gyfer 2016-2020 yn mynd rhagddynt ar y cyd â'r ymgynghoriad hwn. Gellir dod o hyd i ddogfennau ymgynghori'r Cynllun

Cydraddoldeb Strategol drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<http://gov.wales/consultations/people-and-communities/draft-equality-objectives-2016-2020-consultation/?lang=cy>

Ble rydym ni arni ar hyn o bryd?

Ar hyn o bryd, darperir arian drwy Raglen Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2014-2017. Mae'r rhaglen tair blynedd yn ariannu 16 o sefydliadau (gweler Atodiad 1). Cafwyd cyfanswm o 191 o geisiadau ar gyfer y grant sy'n darparu £1.64 miliwn y flwyddyn.

Mae'r rhaglen yn cyfrannu at gyflawni amcanion cydraddoldeb Llywodraeth Cymru o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac mae'n cefnogi pobl sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r arian yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i egwyddorion tegwch a chydaddoldeb ac rydym wedi sicrhau bod y nodweddion gwarchodedig wedi'u cwmpasu'n gytbwys dros ardal ddaearyddol eang.

Mae rhagor o fanylion am Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2014-17 ar gael yma:

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/equalities-inclusion-grant-2014-2017/?skip=1&lang=cy>

Arian Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn y Dyfodol – angen newid

Cynhaliwyd ymarfer yn sgil lansio grant 2014-2017 a oedd yn seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd ac mae'r adborth wedi llywio'r ymgynghoriad hwn. Cododd yr adborth yr ystyriaethau canlynol:

- P'un ai cynllun grant yw'r ffordd orau o gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb strategol.
- P'un a yw cwmpas y cynllun yn iawn – a ddylai ganolbwyntio'n fwy ar feysydd penodol, neu a ddylid ei ymestyn i gefnogi fframweithiau eraill neu ei uno â rhaglenni eraill.
- P'un a oes ffyrdd eraill o weinyddu cynllun grant, e.e. ei roi ar contract i sefydliadau allanol.
- Y ffaith bod angen adolygu'r broses ymgeisio i sicrhau bod gan y Trydydd Sector ddisgwyliadau mwy eglur, o gofio'r nifer fawr o geisiadau a gafwyd ar gyfer grant 2014 - 2017.
- Y ffaith bod angen lleihau'r baich ar sefydliadau wrth lenwi eu ceisiadau.
- Mae angen ystyried y ffaith bod gan sefydliadau llai o faint lai adnoddau ac arbenigedd ar gyfer llenwi ceisiadau, ac nad oes ganddynt weithdrefnau llywodraethu a rheoli ariannol i gyrraedd y safon ofynnol.

Byddem yn croesawu eich sylwadau ar y cynigion canlynol. Rydym wedi amlygu'r agweddau gwahanol ar y rhaglen ariannu arfaethedig yr hoffem gael eich barn arnynt, yn benodol:

1. Rhaglen ariannu dros dair blynedd arall

Cynigiwn lansio rhaglen ariannu Cydraddoldeb a Chynhwysiant dros dair blynedd arall rhwng 2017 a 2020.

Cynigiwn dderbyn cynigion ar gyfer arian prosiect ac arian craidd neu gyfuniad o'r ddau. Mae arian craidd yn cyfeirio at ariannu sefydliadau i gyflawni eu busnes craidd, h.y. costau cynnal. Mae arian prosiect yn cyfeirio at arian ar gyfer gweithgaredd penodol h.y. costau cyflawni prosiect.

Byddai'r arian yn cael ei ddyrannu i sicrhau bod y nodweddion gwarchodedig yn cael eu cwmpasu'n gytbwys dros ardal ddaearyddol eang.

2. Cysylltu'r Arian Cydraddoldeb a Chynhwysiant â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Cynigiwn fod diben yr arian yn cael ei ganolbwyntio'n agos ar yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol. Rydym yn ymgynghori ar Amcanion Cydraddoldeb y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar hyn o bryd. Rydym yn gofyn i gyrrff cyhoeddus, sefydliadau'r Trydydd Sector a rhanddeiliaid am eu barn ar yr amcanion cydraddoldeb presennol, ac ar beth y dylai blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cydraddoldeb ganolbwyntio. Yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad ar Amcanion Cydraddoldeb y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, byddwn yn nodi meysydd y byddwn yn awyddus i roi arian Cydraddoldeb a Chynhwysiant iddynt.

3. Dyrannu arian yn ôl thema polisi

Cynigiwn ddyrannu arian yn ôl thema polisi i ddenu cynigion sy'n canolbwyntio'n fwy ar feysydd â blaenoriaeth benodol. Yn dilyn ymgynghoriad ar Amcanion Cydraddoldeb y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae'n bosibl y byddwn yn nodi meysydd gwaith penodol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion. Bydd y meysydd hyn yn sail i'n prosesau dyrannu arian. Mabwysiadwyd dull tebyg o weithredu yn dilyn yr ymgynghoriad ar gyfer Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2014-17 a nodwyd bod Canolfannau Byw'n Annibynnol a Chanolfan Genedlaethol Adrodd am Droseddau Casineb, yn feysydd â blaenoriaeth benodol yr oedd angen rhagor o gymorth ac arian arnynt.

Byddai'r arian ar gael i sefydliadau a all gyflawni'r cynigion yn unol â'r themâu gofynnol.

Rydym wedi ystyried cyfyngu ar ein harian i sefydliadau sy'n nodi eu bod yn cefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig penodol ledled Cymru gyfan (a elwir weithiau'n gyrrff 'ambarél'). Fodd bynnag, nid ydym o'r farn bod yr opsiwn hwn yn ymarferol gan nad oes gan bob nodwedd warchodedig gorff cynrychioliadol ac mewn rhai enghreifftiau, mae mwy nag un sefydliad neu mae consortiwm o sefydliadau sy'n

darparu mantell genedlaethol. Er hyn, os oes gennych chi farn wahanol ar hyn, nodwch hyn yn eich ymateb.

4. Rhoi mwy o bwyslais ar weithio mewn partneriaeth

Cynigiwn nodi'r ffaith bod angen i sefydliadau weithio ar y cyd yn ffurfiol. Er bod gweithio mewn partneriaeth wedi cael ei annog yn y rownd ariannu flaenorol ar gyfer Cydraddoldeb a Chynhwysiant, cynigiwn y bydd yn ofynnol cydweithio ar gyfer rownd ariannu 2017-2020 er mwyn bod yn gymwys i gael yr arian hwn. Ystyriwn fod hyn yn ffordd o atgyfnerthu partneriaethau'r Trydydd Sector yng Nghymru ac o gynorthwyo mwy o sefydliadau drwy'r arian hwn. Bydd hefyd yn galluogi sefydliadau llai o faint i gydweithio i gyflwyno ceisiadau am arian.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Ffurflen Ymateb

i'r

Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Adran 1

Cwestiwn 1: A oes angen arian prosiect ac arian craidd neu ai dim ond arian prosiect neu arian craidd y dylem ei roi? (gweler paragraff 1 uchod).

Cwestiwn 2: A ddylai'r arian Cydraddoldeb a Chynhwysiant gwmpasu'r nodweddion gwarchodedig mewn modd cytbwys?

Cwestiwn 3: A ddylai'r broses ariannu Cydraddoldeb a Chynhwysiant ystyried ymhle y caiff gweithgareddau eu darparu er mwyn i ni allu sicrhau bod yr arian yn cwmpasu Cymru gyfan?

Cwestiwn 4: A ddylai'r arian Cydraddoldeb a Chynhwysiant gefnogi'r amcanion yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 (yr ymgynghorir arno ar hyn o bryd)? (gweler paragraff 2 uchod).

Cwestiwn 5: A ddylid dyrannu'r arian Cydraddoldeb a Chynhwysiant i gynigion sy'n canolbwyntio'n fwy ar feysydd â blaenoriaeth benodol? (gweler paragraff 3 uchod).

Cwestiwn 6: A ddylai gweithio mewn partneriaeth fod yn rhan orfodol o'r meini prawf cymhwyster ar gyfer yr arian hwn, gan sicrhau mai dim ond ceisiadau ar y cyd y gellid eu gwneud? (gweler paragraff 4 uchod).

Cwestiwn 7: A oes unrhyw bwyntiau eraill y dylem eu hystyried, yn eich barn chi, mewn perthynas ag arian Cydraddoldeb a Chynhwysiant?

Adran 2

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch:

☐

Atodiad 1

Sefydliadau sydd wedi cael arian drwy Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2014-17

1	Gofal Henoed Gogledd Ddwyrain Cymru (ACNEW)
2	Y Groes Goch Brydeinig
3	Clwstwr Eglwys Fethodistaidd Caerdydd, ar ran Bwrdd Rheoli Prosiect y Drindod
4	Anabledd Cymru
5	Dynamix LTD
6	Merched yn Gwneud Gwahaniaeth
7	Canolfan Menywod Gogledd Cymru Cyf.
8	Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID) yn masnachu o dan enw Action on Hearing Loss
9	Achub y Plant
10	Stonewall Cymru
11	YMCA Abertawe
12	Cwmni Theatr Taking Flight
13	Cymorth i Ddioddefwyr
14	Cyngor Ffoaduriaid Cymru
15	Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
16	Youth Cymru